



Tynnodd Gerallt Pennant y llun hwn rhwng Bewdley a Stourport ar 20 Mehefin 2010.

Mae'n debyg fod llawer o blanhigion wedi blodeuo'n helaeth eleni diolch i'r tywydd oer i ddechrau, ac yna'r sychder.

Fel y dywedodd yr arddwraig Denise Quéré o Landerne, Llydaw: *il faut les faire souffrir un peu* - mae'n rhaid eu gwneud i ddiodef ychydig i gael llwyth o flodau.

Rhywbeth bach sy'n poeni pawb...

Does dim rhaid bod yn naturiaethwr i fod yn fardd - ond mae hi'n helpu. Weithiau mae dihidrwydd beirdd a chantorion am natur yn affwysol. Dwi'n cofio, rhai blynyddoedd yn ôl, rhaglen deledu canwr nid anenwog yn cyflwyno cân am ddail y teim ynghanol mawnog yn yr Alban gan chwifio sbrigyn o'r helygen Fair o flaen y camera - deud dim, digon yw dweud bod Shakespeare yn adnabod y teim yn iawn, a'i gynefin sych: "*I know a bank where the wild thyme blows*" (*Midsummer Night's Dream*).

Yr wyf yn aml yn blino fy nheulu wrth i ni wyllo rhyw ffilm "gyfnod" gyda'n gilydd a hwythau'n gorfod fy nioddef yn arthio am ryw geffyl a throl yn y Canol Oesoedd yn ymlwybro trwy dirlun o rododendrons ar lwybr sydd yn amlwg wedi ei dreulio gan geir (gweler y llun). Er cymaint yw'r ymdrech i wisgo'r actorion yn y gwisgoedd cywir, ni wneir fel arfer ond yr ymdrech leiaf i gyflwyno tirlun cefndir gwir a dilys y cyfnod. Mae rhywbeth bach yn poeni pawb...


Oes yna bendraw ar allu Shakespeare deudwch? Llwyddodd yr hen fistar-geiriau i ddangos ei ymwybyddiaeth o effaith dyn ar ei filltir sgwâr, sef dangos sut yr oedd cefn gwlad ei gyfnod wedi ei ddihsbyddu o fechgyn i weithio yn y meysydd ar ôl iddynt gael eu galw i frwydr Agincourt: "*The even mead that erst brought sweetly forth the freckled cowslip, burnet and green clover*" yn troi, yn ganlyniad, i ddim ond "*hateful docks, rough thistles, kecksies, burs, losing both beauty and utility*", hynny o ddiffyg pladur a chryman (Henry V). O'i ysgrifennu'n fwy rhyddieithol gallasai'r disgrifiad hwn gymryd ei le yn gyffyrddus mewn Adroddiad Rheolaeth Safle o eiddo'r Cyngor Cefn Gwlad.

Roedd Keats yn amlwg yn hollol gyfarwydd â chân yr eos - mae ei rythmau digamsyniol yn diasbedain trwy ei gerdd *Ode to a Nightingale* fel adlais o'r hiraeth am hafau plentyndod mewn caeau afler parthau'r deau. Nid yw'r rythmau hyn bellach yn rhan o brofiad y rhylyw o Gymry er mor fynych y ceir enw'r eos mewn cerdd, enw fferm a llysenw cerddor yn y Gymraeg. Yn yr un modd seiliodd y cyfansoddwr Strafinsgi ei gampwaith Defod y Gwanwyn ar gân aderyn o'r enw telor y cyrs Blyth, sef math o delor swnlyd, cecrus sydd yn byw ar hyd glannau afonydd Rwsia, ei famwlad, ac a roes i'r gwaith ei rythmau cythryblus ac anghynnes.

Hawdd ydi adnabod y naturiaethwr yn y bardd, a hawdd ydi adnabod y bardd nad yw'n naturiaethwr. Roedd R. Williams Parry ymysg y categori cyntaf: nid meist'r geiriau yn unig fyddai'n dychmygu "untroed oediog" y llwynog ganllath o gopa'r mynydd, ond person a gafodd yr union brofiad yn ei gynefin ei hun droeon. Mae hynny'n wahanol efallai i'r nico annwyl na hedfanodd erioed o Facedonia i Gymru fach beth bynnag yr hoffai Cynan ei gredu yn ei fyd bach sentimental ei hun.

Adasiad o erthygl a ymddangosodd gyntaf Y Cymro

Llwybr yn Eryri ddechrau'r ganrif ddiwethaf yn dangos tair rhych y ceffyl a'r drol



Llyn naturiol mwyaf y byd



Nous rentrons juste de Sibérie (24 Juin 2010). Sacrée expédition, dont on tâchera de ne pas trop vous rebattre les oreilles. Voici Lac Baïkal

Llun o Lyn Baikal, Siberia, gan Gabriel Quéré, Llydaw

Llosgi Castell Cricieth

Dyma ddau lun - un a dynnwyd ar y diwrnod cyn



arddangosfa tân gwyllt ger Castell Cricieth a'r llall yr wythnos wedyn. Sylwer ar y tyfiant wedi ei losgi ar yr ail lun. Roedd rhaid galw am y frigâd dân a buont wrthi trwy'r nos yn ceisio rheoli tân a greuwyd gan wreichion y tân gwyllt. Roedd y tyfiant yn grin

iawn oherwydd y diffyg glaw diweddar.

Cyfrannwyd y llun a'r stori gan Gwyn Williams

George Miles 1934-2010



Collasom yr hen gyfaill, George Miles, yn ddiweddar ar ôl salwch hir. Fe'i cofiwn fel adarydd brwd a gwybodus, a modrwywr ymroddgar. Dyma fo tua 1993 yn modrwyo cyw tylluan, prosiect a gyfrannodd yn helaeth ato. Estynnwn bob cydymdeimlad i Gwenda a'r teulu ym Mryngwran, Môn.


Cenllysg Awst

20 Awst 1939 One of the heaviest showers of hail I've ever known this morning served with thunder too. Heavens artillery at play all day

Dyddiadur Defi Lango, Esgerdawe, Caerfyrddin

Meddai Huw Holland Jones: *Interesting...records show that Aug 1939 was warmer than usual, Average Tx for month at Ross on Wye was 21.1°C, Tn 11.7°C. but not a wet month, with High Pressure much of the month. A hot spell of weather started on the 14th, and by the 19th daily temps were 25°-26°C in South Wales, and still 16°C the following night. On the morning of the 20th a thundery low had formed over N. France and the humid warm air in its circulation spread across S. Britain (and S. Wales) resulting in many thunderstorms (and the ones at Esgerdawe). By the 21st fine weather had returned, and continued right through till the end of September. War was declared on Sept 3rd (ironically one of the few wet days that fine September) [Tx = uchafswm Tn = isafswm]*

...a chofnod Huw o'r sychder eleni



Mnemonigion

Mnemonig i gofio lliwiau'r enfys: **C**ollodd **O**wain **M**organ **G**ar **G**las **P**an **F**aglodd (coch **o**ren **m**elyn **g**wyrdd **g**las **p**orffo **f**ioled)

Twm Elias (Am y Tywydd)

A dyma mnemonig ddaearegol Saesneg: **C**amels **O**ften **S**it **D**own **C**arefully **P**erhaps **T**heir **J**oints **C**reak **E**arly **O**iling **M**ay **P**revent **P**ermanent **R**heumatism

(**C**ambrian, **O**rdovician, **S**ilurian, **D**evonian, **P**ermanian, **T**riassic, **J**urassic, **C**retaceous, **E**ocene..... **R**ecent **H**olocene)...

Sally Ellis

Beth am ddyfeisio fersiwn Gymraeg?

...a daeth Goleuni pellach!

Rwy'n cofio fy mod wedi nodi *Northern Lights* fel: Ffagl yr Arth, (Morris, William Meredith; 1910: "A glossary of the Demetian dialect of north Pembrokeshire": Tonypany) ac mae'r enw yma yng Ngeiriadur yr Academi hefyd (*SW Wales* meddai). Cyfeirio at yr arth wen, *polar bear*... neu *Ursa Major* tybed?

Sion Roberts

Eli haul yn 1914?

Dyma gofnod ar gerdyn post wedi ei ysgrifennu yn Llandudno ar 6 Gorffennaf 1914: *..the weather is champion, I have had to get some cream for my face already. Ffactor-fiffti yn 1914...go brin - beth 'ta...!*

Y fran goesgoch yn ne Lloegr...mwy



Llun: Alun Williams

Salisbury 1946: 7.50 pm *The Chough* [erbyn hyn *The Blue Boar*] is a rambling old hotel and I have difficulty finding my way along its passages.

..a'r llostlydan yn Ffrainc

Darllen bore ddoe (18 Mehefin 2010) yn ein papur dyddiol, fod y llostlydan a fu bron â diflannu oddi allan i ran afon Rhône wedi croesi i afon Loire a bellach wedi cyrraedd ei haber yng nghyffiniau Nantes.


Wmffra Wmffras, Llydaw

Gŵyl Loergan



Lloergan yw *Kann al Loar* yn y Llydaweg ac enw gŵyl flynyddol tref Landerne, Llydaw. Ystyr *Kann al Loar* yw lleuad llawn, kann yn golygu gwyn (cymharer "bara kann", "cannu" = to bleach etc) a loar yn golygu lloer. Fel enw ar ŵyl, mae hefyd yn chwarae ar debygrwydd *kann* i'r gair mwy cyfarwydd canu, sydd hefyd yn cael ei rannu rhwng y ddwy iaith - ac mae yna ddipyn o hynny yn digwydd yn yr ŵyl hefyd! (Mae'r gair Landerne)au ar y cap, gyda chromfachyn siap gewin o leuad ar ôl yr e, yn fodd i ddangos enw'r dref LANDERNE yn Llydaweg, yn ogystal a'r enw Ffrangeg LANDERNEAU...clyfar 'te?!).

Cyffro noson yn yr 29 Mehefin eleni



Ffoniodd Huw Holland Jones tua 8 o'r gloch i esbonio enfys ryfeddol uwchben: "ice crystals in the cirrus cloud give an arc of upper contact". It's a very rare sight. The upper one (there were two at one stage) forms on the 46 degree halo. The lower smaller one looked more like a mock sun and formed at the top of the 22 degree halo (itself much more common). The phenomenon is not a rainbow. The halos, or rings, are caused by refraction or reflection of light by ice crystals suspended in the atmosphere (usually the crystals make up

high cirrus clouds, but can also occur at ground level especially in arctic or antarctic regions in ice fog. Tynnais y llun hwn ohono (DB) - diolch i Huw.

Cofio'r holl flodau dant y llew eleni?

(gweler Rhifyn 29): Ai'r syched gwanwyn eleni oedd yn gyfrifol? Beth am gnydau mawr o ddant y llew yn y gorffennol - a oeddynt yn gysylltiedig â gwanwynau sych? 1946: Dyma ddywedodd Edie Rutherford o Sheffield ar y 5 Fai 1946 yn ei dyddiadur: "Last evening we went for a walk through Beeley Woods, cuckoo noisy and lots of other birds singing. Fields masses of dandelions..." Tybed oedd gwanwyn 1946 yn sych fel eleni? Dyma gofnododd adarwr o Swydd Gaerhirfryn y gwanwyn hwnnw yn British Birds: "The spring of 1946 was marked by the unusual number of waders and other migrants which visited inland waters in S. Lancs, and N. Ches. between mid-April and mid-May. This period coincided with a spell of dry weather (no rain fell between April 28th and May 16th), which by reducing the water-level of the "flashes" (coal-mining subsidences) exposed suitable feeding-ground for waders". British Birds 4: Ebrill 1947

1984: Yn 1984 tynnais y llun hwn o'r doreth drawiadol o ddant y llew mewn cae ger Harlech y gwanwyn hwnnw. Ac yn fy nyddiadur nodais ddau "Nodyn o Sychder" tua'r un



cyfnod, sef 1) "JA reports much more moss in pied flycatcher nests this year, perhaps because of its dryness earlier in the year and similarity to dried grass" a 2) "song thrushes going for snails at Bro

Enddwyn to an exceptional degree" (y pridd yn rhy galed i gyrraedd pryfed genwair?)

Llinos fynydd fentrus



Mae niferoedd y llinos fynydd yn gostwng yn Eryri. Tros y 10 mlynedd dwythaf, mae niferoedd y rhai sydd yn magu wedi mynd i lawr yn arw. Fel rhan o astudiaeth i'r gostyngiad, mae nifer o'r adar hyn wedi cael eu modrwyo gyda modrwyau lliw. Mae dros 25 o'r llinosiaid mynydd yn Nant Ffrancon wedi cael modrwyau lliw unigryw, er mwyn ymdrechu i gael mwy o wybodaeth am symudiadau ein hadar Cymreig. Yn ystod mis Chwefror dalwyd 8 o'r llinosiaid ar yr arfordir ger Pensarn, Abergele. Mi oedd un o'r rhein yn gwisgo modrwy fetal y BTO. Yn ddi-ddorol mi oedd yr aderyn yma wedi ei fodrwyo yn Clachtoll, gogledd orllewin yr Alban mis Awst cynt. Llun ac adroddiad Kelvin Jones

Cynnwrf yn Heol Watling, Llanrwst.....



llun gan Alun Williams

.....Mehefin 18 wrth i gannoedd ar gannoedd o wenynd heidio. Rhaid oedd gofyn am gymorth arbenigwr lleol.

Alun Williams

Cofnododd Griffith Thomas o ardal Rhiw, Pen Llŷn, yn ei ddyddiadur bod "gwenyn yn codi o gwch Penarfynydd heddiw" y 10 Gorffennaf 1914. Dyma'r dyddiadau eraill a gofnododd y gwenyn yn codi: 27 Mehefin 1914, 6ed Gorffennaf 1914, 21 Mehefin 1914, 1 Gorffennaf 1915, 23 Gorffennaf 1916, 1 Awst 1916, 5 Awst 1916.

Diolch i wefan Rhiw.com

Onid oedd y dyddiad "codi" yn Llanrwst eleni yn gynnar o'i gymharu â dyddiadau Griffith Thomas? Meddai Paul Williams: "Mae'r tywydd yn arwain at heidio yn anuniongyrchol. Gwn am wenynd yn Llanfachreth sydd wedi heidio yn y dyddiau d'wytha hefyd [21 Mehefin 2010]. Y prif gyfnod heidio ydi'r diwedd y gwanwyn/dechrau'r haf."

Clytiau hwyr o eira

It was still the size of a house on 5th June [2010] when we ran past.. 100 to 150 feet long, and still a good 10 feet thick. It looked so small from Bangor, but so huge close-up. I placed it near the source of the Afon Caseg below Foel Grach at SH 685656. I think it survived until around the 15th June.

Charles Aron, 2010

Ac ar Gader Idris cafodd Peter Benoit o'r Bermo "snow patch" ar ben y Fox's Path (Llwybr Gwernan) ar 28 Mai 1947 ar ôl gaeaf oer iawn y flwyddyn honno.

Sifflet Mathilde



Wrth ymweld â Chymru yn ddiweddar dangosodd Mathilde Becam, Llydawes ieuanc o Lampaul-Guillimiau, sut i wneud sifflet, neu chwiban o frigyn ysgaw sy'n gwneud sŵn tebyg i gorn Llydewig. Tynnwch y canol allan yn ofalus gyda chŷn a gwnewch dwll tua chentimedr o un pen. Clymwch ddarn o fag plastic tenau dros y pen hwnnw a lleisiwch drwy'r twll. Mae'r sŵn yn rhyfeddol. *Trugarez bras Mathilde.*

Brockenspectre arall (Gweler Bwletin 14)



Tynnwyd hwn wrth edrych i lawr ar adeiladau uwchben San Francisco ar Awst 26, 2006. Roedd Alan a finnau ar ein gwyliau yno ac aethom mewn sea-plane fechan i weld y ddinas o'r awyr; ein gobaith mwyaf oedd gweld y Golden Gate Bridge ond siom a gawsom, daeth niwl trwchus i'w gorchuddio - mae hyn yn beth arferol yn yr ardal, fel y gwyddoch. nYr oedd yr haul yn disgleirio `union` uwch ein pennau ac ymhen ychydig, sylwais ar y cwmwl oddi tanom - gwelwn gysgod yr awyren mewn cylch o enfys. Gwelwch fod proffil o uwchben yr awyren y tro yma.

Brenda Jones, Llanwnda